Cyllid & Thollau EM

Nodiadau ar gyfer cwblhau ffurflen R40

Cyflwyniad

Os bydd angen help arnoch, gallwch ein ffonio ar y rhif ar flaen eich ffurflen R40 (2009).

Am Nodiadau a Thaflenni Cymorth ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489**.

Os nad yw eich domisil yn y DU, dylech gynnwys yr incwm a gawsoch yn neu a drosglwyddwyd i'r DU.

Os nad ydych yn preswylio yn y DU peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon. Dylech ddefnyddio ffurflen R43 sydd ar gael o adran Elusennau, Asedion a Phreswylio, Phreswyl, Cyllid a Thollau EM Ffoniwch **0845 070 0040** (ffoniwch o'r tu allan i'r DU **+44 151 210 2222**) neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**



R40 (2009)

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i wneud ceisiadau am ad-daliad am unrhyw un o'r blynyddoedd treth 2003-04 i 2009-10 (mae'r flwyddyn dreth yn dechrau ar 6 Ebrill ac yn dod i ben ar 5 Ebrill canlynol). Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais yw pum mlynedd o 31 Ionawr yn dilyn y 5ed o Ebrill sef diwedd y flwyddyn dreth. Er enghraifft, rhaid gwneud cais ar gyfer 2003-04 erbyn 31 Ionawr 2010.

Nid yw'r nodiadau hyn yn cwmpasu pob pwynt yn fanwl, ond maent yn amlygu'r blychau hynny y gallai fod angen help i'w llenwi neu wybodaeth yn eu cylch.

Os oes angen fersiwn print bras arnoch o'r ffurflen, yna cysylltwch â ni ar y rhif ffôn a welir ar dudalen flaen y ffurflen.

Os caiff eich ffurflen ei llenwi gan rywun arall

Mae hyn yn iawn, ond chi sy'n gyfrifol am y manylion a gofnodir ar y ffurflen, hyd yn oed os talwch gynghorydd treth i'w llenwi ar eich rhan. A rhaid i chi lofnodi'r ffurflen. Ffoniwch ni os ydy llofnodi'r ffurflen yn achosi problem i chi.

Os ydych yn hawlio ad-daliad ar ran rhywun arall, dylech sicrhau eich bod yn nodi ei fanylion/manylion personol ef/hi ym mlychau 1.1 a 1.2. Bydd angen i chi ddarllen y nodiadau ar gyfer blychau 1.7, ar dudalen 2, a 12.2, ar dudalennau 11 a 12 hefyd.

Cyn i chi ddechrau

Darllenwch y cyfarwyddiadau yn 'Sut i lenwi'r ffurflen hon' ar dudalen 1 o'r R40. Cadwch yr hyn a gofnodir gennych o fewn y blychau, a gadewch unrhyw flychau neu adrannau nad ydynt yn gymwys yn wag. Os gwnewch gamgymeriad, rhowch linell trwyddo ac ysgrifennwch yr wybodaeth gywir oddi tano - peidiwch â defnyddio hylif cywiro - cynlluniwyd eich ffurflen i'w 'darllen' gan beiriant.

Casglwch ynghyd fanylion eich holl incwm, er enghraifft:

- unrhyw ddatganiad pensiwn yr Adran Gwaith a Phensiynau
- tystysgrifau llog, cyfriflenni neu lyfrau cyfrifon, sy'n dangos y llog a gafwyd a'r dreth a ddidynnwyd gan fanciau, cymdeithasau adeiladu a derbynwyr adneuon eraill
- talebau difidend
- datganiadau incwm o ymddiriedolaethau ac ystadau
- P60 *Tystysgrif diwedd blwyddyn* oddi wrth dalwr pensiwn neu gyflogwr
- ffurflen(ni) P45 (tystysgrif manylion ymadael) gan gyflogwr blaenorol.

Peidiwch ag anfon talebau, tystysgrifau neu unrhyw ddogfennau eraill gyda'ch ffurflen.

Myfyrwyr

Fel arfer mae incwm o ysgoloriaethau a bwrsariaethau wedi ei eithrio rhag treth, dylech gysylltu â ni os nad ydych yn siŵr os dylid cynnwys incwm o'r fath ar y ffurflen.

Manylion personol

1.5

Enillion Cyfalaf

Rhaid i chi lenwi R40(CG) *Hysbysiad Treth Enillion Cyfalaf* neu *Ffurflen Dreth Hunanasesiad* gyda thudalennau Crynodeb Enillion Cyfalaf, os yn ystod y flwyddyn dreth:

- gwnaethoch waredu asedion trethadwy a oedd yn werth mwy na phedair gwaith y swm blynyddol a eithrir, neu
- didynnir colledion o'ch enillion trethadwy, ac mae eich enillion trethadwy cyn colledion a rhyddhad meinhau yn fwy na'r swm blynyddol a eithrir, neu
- ni ddidynnir colledion ac mae eich enillion trethadwy ar ôl rhyddhad meinhau

Recycled Paper

yn fwy na'r swm blynyddol a eithrir, neu

- rydych am hawlio colled cyfalaf caniataol neu hawlio unrhyw enillion cyfalaf neu wneud dewis arall am y flwyddyn.

Ar gyfer 2008-09 y swm blynyddol a eithrir yw £9,600. Mae'r symiau ar gyfer blynyddoedd eraill ar gael ar ein gwefan. Ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Wrth gyfrifo gwerth yr asedion a waredwyd gennych, defnyddiwch werth marchnad unrhyw asedion a roddwyd am ddim neu a werthwyd gennych am lai na'u gwerth llawn ac anwybyddwch y canlynol:

- pan fyddwch wedi gwaredu asedion a eithrir, fel ceir preifat, cyfranddaliadau a gedwir o fewn Cynllun Ecwiti Personol (PEP) neu Gyfrif Cynilo Unigolyn (ISA)
- pan fyddwch yn gwaredu asedion i'ch priod neu eich partner sifil (os oeddech yn byw gyda'ch gilydd ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn dreth)
- pan fyddwch yn gwaredu eich cartref eich hun, lle
  - dyma eich unig gartref yn ystod eich perchenogaeth ac ni chafodd ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion eraill, er enghraifft, yn eich busnes
  - defnyddiwyd eich tŷ fel eich cartref trwy gydol eich perchenogaeth (ond gallwch anwybyddu tair blynedd olaf eich perchenogaeth)
  - nid oedd yr ardd a'r tir, a waredwyd ar yr un pryd, yn fwy na hanner hectar.

Wrth gyfrifo cyfanswm eich enillion trethadwy dylech gynnwys unrhyw enillion a briodolir i chi (er enghraifft, oherwydd eich bod yn setlwr neu'n fuddiolwr).

1.6 **Ceisiadau dros dro**
Os ydych yn cwblhau'r ffurflen **yn ystod** blwyddyn y cais ac rydych yn disgwyl derbyn mwy o incwm cyn diwedd y flwyddyn (5 Ebrill), rhowch 'X' ym mlwch 1.6. Amgaewch amcangyfrif am **y flwyddyn gyfan** ar gyfer pob math o incwm y disgwyliwch ei gael. Gallwn ofyn am gadarnhad o'r ffigurau hyn ar ôl diwedd y flwyddyn.

1.7 **Os mai dyma eich cais cyntaf ar ran rhywun arall**
Os mai dyma eich cais cyntaf ar ran rhywun arall, rhowch 'X' ym mlwch 1.7.

Gallem gysylltu â chi yn hwyrach am dystiolaeth o'ch awdurdod i wneud y cais.

Incwm cyflogaeth, pensiynau a budd-daliadau'r wladwriaeth yn y DU

2.1 **Cyfanswm cyflog o bob cyflogaeth**
Os ydych yn gyflogedig, rhaid i'ch cyflogwr roi cofnod i chi o'ch cyflog a'r dreth – os oeddech yn gweithio ar 5 Ebrill, cewch P60 *Tystysgrif diwedd blwyddyn*. Os gadawsoch cyn 5 Ebrill, byddwch wedi cael P45 (Rhan 1A). Os mai dim ond un swydd oedd gennych yn y flwyddyn, rhowch y cyflog o'r blwch 'yn y gyflogaeth hon/in this employment' ym mlwch 2.1, ar y P60, neu o'r blwch 'cyfanswm y cyflog yn y gyflogaeth hon/total pay in this employment' ar y P45. Os oedd gennych fwy nag un swydd, ychwanegwch holl ffigurau tâl pob cyflogaeth a gawsoch at ei gilydd. Os byddwch yn derbyn taliadau pellach gan eich cyflogwr ar ôl derbyn eich P45, dylech gynnwys yr incwm 'ar ôl terfynu' hwn ym mlwch 2.1.

2.2 **Treth a ddidynnwyd o'r cyflog**
Ychwanegwch at ei gilydd y ffigurau ar gyfer 'cyfanswm y dreth yn y gyflogaeth hon' ar eich P45, neu'r ffigurau ar gyfer 'treth a ddidynnwyd yn y gyflogaeth hon' o'ch P60 (os oedd gennych fwy nag un), a rhowch y cyfanswm ym mlwch 2.2. Os gwnaethoch dalu treth ar y taliadau ôl-derfynu dylech gynnwys y dreth a ddidynnwyd ym mlwch 2.2.

2.3 **Pensiwn y Wladwriaeth**

Nodwch y swm llawn yr oedd hawl gennych ei gael am y flwyddyn (nid y swm wythnosol, neu bob pedair wythnos), ond peidiwch â chynnwys:

- unrhyw swm ar gyfer plentyn dibynnol (ond cynhwyswch unrhyw swm am oedolyn dibynnol)
- bonws y Nadolig
- taliad tanwydd y gaeaf
- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Credydau pensiwn.

Os na wyddoch y ffigur ffoniwch Pensions Direct ar **0845 302 3011** neu gofynnwch eich Canolfan Bensiynau leol am ffurflen BR735 am flwyddyn dreth y cais.

Os gwnaethoch ohirio derbyn eich pensiwn y wladwriaeth, gweler y nodiadau ar gyfer blychau 7.4 i 7.6 ar dudalen 9.

2.5 **Cyfanswm budd-daliadau eraill y wladwriaeth**

Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r canlynol, ychwanegwch nhw at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 2.5:

- Lwfans Profedigaeth neu Bensiwn Gweddwon
- Lwfans Mam Weddw neu Lwfans Rhiant Gweddw ac eithrio cynnydd am blentyn dibynnol
- Pensiwn Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol ac eithrio Lwfans Plant ar gyfer Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith. Os oeddech yn hawlio ar 5 Ebrill, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi P60 i chi - nodwch y swm trethadwy ar eich ffurflen. Os gwnaethoch orffen hawlio yn ystod y flwyddyn, byddwch wedi cael P45 sy'n rhoi'r swm trethadwy. Os oedd gennych fwy nag un hawliad yn ystod y flwyddyn, ychwanegwch yr holl symiau trethadwy at ei gilydd
- Lwfans gofalwr. Cynhwyswch unrhyw swm ar gyfer oedolyn dibynnol ond anwybyddwch unrhyw swm am blentyn dibynnol
- Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol neu Dâl Tadolaeth Statudol, neu Dâl Mabwysiadu Statudol, ond dim ond os byddwn ni, Cyllid a Thollau EM, wedi eich talu (nid eich cyflogwr). Anwybyddwch Lwfans Mamolaeth - nid yw'n drethadwy
- Budd-dal Analluogrwydd **Trethadwy.** Ond nid yw Budd-dal Analluogrwydd yn drethadwy yn ystod y 28 wythnos gyntaf o analluogrwydd neu os dechreuodd eich analluogrwydd cyn 13 Ebrill 1995 a chawsoch Fudd-dal Anabledd yna - os oeddech yn hawlio ar 5 Ebrill, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi ffurflen P60 i chi. Os gorffennoch hawlio cyn 5 Ebrill, byddwch wedi cael P45. Bydd y ffurflenni hyn hefyd yn rhoi'r ffigur ar gyfer 'treth a ddidynnwyd' sydd i'w nodi ym mlwch 2.6
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Os oeddech yn hawlio ar 5 Ebrill, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi P60 i chi - nodwch y swm trethadwy ar eich ffurflen. Os gwnaethoch orffen hawlio yn ystod y flwyddyn, byddwch wedi cael P45 sy'n rhoi'r swm trethadwy. Os oedd gennych fwy nag un hawliad yn ystod y flwyddyn, ychwanegwch yr holl symiau trethadwy at ei gilydd.

Peidiwch â chynnwys Lwfans Gweini, Credydau Treth neu Fudd-dal Plant unrhyw le ar eich ffurflen.

2.7 **Cyfanswm y pensiynau a blwydd-daliadau ymddeol eraill**

Ychwanegwch at ei gilydd holl bensiynau'r DU a gawsoch yn ystod y flwyddyn, er enghraifft pensiynau galwedigaethol a blwydd-daliadau ymddeol. Bydd talwr eich pensiwn yn rhoi P60 neu ddatganiad tebyg i chi. Peidiwch â chynnwys blwydd-daliadau bywyd a brynwyd yn yr adran hon; dylech eu cynnwys ym mlychau 3.1 i 3.3 (gweler y nodiadau ar dudalennau 4 a 5).

A ydych yn derbyn pensiwn o ganlyniad i ymddeoliad oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â gwaith neu anaf yn y gwaith? Os ydych, ac mae eich pensiwn yn fwy na'r hyn y byddai wedi bod petaech wedi ymddeol am resymau iechyd na chawsant eu hachosi gan eich gwaith, dylech ein ffonio.

Llog a difidendau'r DU

3.1 i 3.7

Dylech gynnwys incwm a gawsoch o:

- banciau, cymdeithasau adeiladu a derbynwyr adneuon eraill (gan gynnwys cyfrifon ar y rhyngrwyd)
  - o gyfrifon cyfredol a chadw
- stociau'r llywodraeth - gwarantau gilt neu giltiau (ond darllenwch y nodiadau ar dudalennau 4 a 5 ynglŷn ag incwm cronedig)
- ymddiriedolaethau uned awdurdodedig a chwmnïau buddsoddi penagored yn y DU
- Cynnyrch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol pan fo treth wedi ei didynnu cyn i chi ei dderbyn (Bondiau First Option, Bondiau Cynilo Cyfradd Sefydlog, Bondiau Twf Gwarantedig a Bondiau Incwm Gwarantedig)
- Cynnyrch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol pan ni ddidynnwyd unrhyw dreth, er enghraifft, Bondiau Incwm, Bondiau Pensiynwyr, Bondiau Cyfalaf, Cyfrif Buddsoddi neu Gyfrif Cynilo Easy Access. Ond dylech eithrio'r £70 cyntaf o log o gyfrif cyffredin
- difidendau cwmnïau o stociau a chyfranddaliadau
- blwydd-daliadau bywyd a brynwyd (gweler y nodyn isod).

Os ydych yn berchen ar gyfranddaliadau ar y cyd gyda'ch priod neu eich partner sifil, fel arfer caiff yr incwm a'r dreth eu rhannu ar sail 50/50. Ond os ydych yn berchen ar y buddsoddiadau mewn cyfrannau anghyfartal ac rydych wedi gwneud dewis ar ffurflen 17, nodwch yr incwm a'r dreth ar y sail anghyfartal. Os ydych yn berchen ar fuddsoddiadau ar y cyd gyda rhywun arall, nodwch eich cyfran chi yn unig.

Blwydd-daliadau bywyd a brynwyd
Dylech gynnwys eich incwm o flwydd-daliadau bywyd a brynwyd ym mlychau 3.1 i 3.3. Dim ond rhan o'r taliad a gewch fydd yr incwm - gwiriwch eich tystysgrifau tâl - peidiwch â rhoi gweddill y taliad ar y ffurflen hon. (Nid yw blwydd-dal bywyd a brynwyd yn flwydd-dal ymddeol, nac ychwaith yn ganlyniad cyfraniadau a dalwyd gennych i gynllun pensiwn personol.)

Os rhoddoch roddion i unrhyw un o'ch plant sydd o dan 18 oed, ac mae'r rhoddion hynny yn cynhyrchu incwm sy'n fwy na £100 (cyn treth) mewn blwyddyn dreth, bydd yr incwm yn cael ei gyfrif fel eich incwm chi a rhaid i chi ei gynnwys ar eich ffurflen eich hun.

Dylech eithrio llog (neu ddifidendau a bonysau) o fuddsoddiadau a eithrir rhag treth, er enghraifft, ISAs a PEPs, oni bai bod rhywbeth wedi digwydd i beri bod yr incwm yn drethadwy. Os nad ydych yn siŵr p'un a oes rhaid i chi roi eich llog ar y ffurflen hon, yna cysylltwch â ni.

Gallwch ddewis derbyn eich llog o giltiau heb fod treth wedi ei didynnu. Os felly, dylid cynnwys y llog ym mlwch 3.4, nid blychau 3.1 i 3.3.

Incwm cronedig
Mae gwarantau pan fo incwm wedi crynhoi yn cynnwys yr holl warantau sy'n dwyn llog, gan gynnwys cyfranddaliadau parhaol sy'n dwyn llog mewn cymdeithas adeiladu (PIBS), stociau benthyciadau'r llywodraeth (giltiau) a stociau benthyciadau cwmnïau, ond nid cyfranddaliadau mewn cwmni neu dystysgrifau Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol.

Cyfrifwch y taliadau neu'r rhyddhad am y gwarantau a brynwyd, gwerthwyd neu a drosglwyddwyd gennych os oedd y taliad llog ar ôl prynu neu werthu wedi disgyn ym mlwyddyn y cais.

Os bydd angen help arnoch i gyfrifo taliadau a rhyddhad incwm, gallwch ein ffonio ar y rhif ar flaen eich ffurflen.

Os nad oedd gwerth nominal yr holl warantau incwm cronedig yn eich meddiant ar unrhyw adeg ym mlwyddyn y cais, neu'r flwyddyn dreth flaenorol, yn uwch na £5,000 ni fydd tâl yn codi ac nid oes rhyddhad yn ddyledus ar gyfer blwyddyn y cais.

Bydd tâl yn codi os gwnaethoch brynu gwarantau heb log cronedig (ex-dividend) neu os gwnaethoch werthu gwarantau gyda llog cronedig (cum dividend). Swm y tâl bydd yr addasiad ar gyfer y llog cronedig nas derbyniwyd, hynny yw, y swm y gostyngwyd y pris prynu (prynu ex-dividend) neu y cynyddwyd y pris gwerthu (gwerthu cum dividend).

Bydd rhyddhad yn ddyledus os gwnaethoch brynu gwarantau gyda llog cronedig (cum-dividend) neu os gwnaethoch werthu gwarantau gan gadw'r hawl i'r taliad llog nesaf (ex-dividend). Swm y rhyddhad fydd yr addasiad ar gyfer swm y llog ychwanegol a gafwyd, hynny yw, y swm y cynyddwyd y pris prynu (prynu cum-dividend) neu y gostyngwyd y pris gwerthu (gwerthu cum-dividend).

Cyfunwch y taliadau a'r rhyddhad i gynhyrchu ffigur net ar gyfer **pob un math o warant**. Pan fo'r taliadau'n uwch na'r rhyddhad, dylech gynnwys cyfanswm y swm net ym mlwch 3.3. Pan fo'r rhyddhad yn uwch na'r taliadau ar gyfer math o warant, didynnwch y swm gormodol o'r llog 'gros' a gafwyd o'r math hwnnw o warant a nodwch swm y llog gostyngol ym mlwch 3.3. Os yw'r canlyniad yn ffigur negyddol, nodwch '0' ym mlwch 3.3. Dylai rhyddhad gormodol gael ei gario ymlaen a'i osod yn erbyn unrhyw daliadau sy'n codi yn y dyfodol. Peidiwch â newid y ffigur ym mlwch 3.2. Os telir llog o warantau gilt i chi heb fod treth wedi ei didynnu, dylech adlewyrchu'r taliadau a'r rhyddhad yn y ffigur ar gyfer 3.4.

3.1 **Llog net a dalwyd gan fanciau neu gymdeithasau adeiladu ac ati**
Yn ogystal â llog o fanciau neu gymdeithas adeiladu dylech gynnwys llog oddi wrth dderbynwyr adneuon a llog a delir gan ymddiriedolaethau uned awdurdodedig (AUT) y DU a chwmnïau buddsoddiadau penagored (OEIC). Gweler 3.6 ar gyfer difidendau o AUTs a OEICs.

3.2 **Treth a ddidynnwyd**
Canlyniad y dreth a ddidynnir o'ch llog gros (a dylid ei gynnwys ym mlwch 3.3) yw eich llog net (blwch 3.1).

3.3 **Swm gros**
Dyma'r swm cyn iddo gael ei drethu.

Byddwch fel arfer yn derbyn llog ar ôl i dalwr y llog ddidynnu treth (ar 20%), er enghraifft y banc neu'r gymdeithas adeiladu. Gallai cyfriflenni a llyfrau cyfrifon banciau a chymdeithasau adeiladu ddisgrifio'r taliadau hyn mewn modd gwahanol, felly os nad ydych yn siŵr o'r ffigurau i'w rhoi ym mlychau 3.1 i 3.3 yna defnyddiwch y daflen waith ar y dudalen nesaf. Bydd y cyfarwyddiadau isod yn eich helpu i'w lenwi.

1 Defnyddiwch un llinell yng ngholofn A ar gyfer pob banc, cymdeithas adeiladu neu dderbynwyr adneuon eraill.

2 Edrychwch ar y llog ar eich cyfriflen neu lyfr cyfrif. Os oes 3 cofnod, nodwch y ffigur ar gyfer y 'llog net' yng ngholofn B, y 'treth a ddidynnwyd' neu'r 'dreth a dynnwyd yn ôl' yng ngholofn C, a'r ffigur 'cyn treth' neu 'gros' yng ngholofn D. Peidiwch â phryderu os nad oes gennych y tri chofnod – ewch i 3.

3 Os mai ffigurau ar gyfer colofnau C a D yn unig sydd gennych, yna'r ffigur yng ngholofn B yw colofn D llai colofn C. Os mai'r ffigur ar gyfer colofn B yn unig sydd gennych, yna'r ffigur yng ngholofn C yw colofn B x 25% (25/100), a'r ffigur yng ngholofn D yw'r ffigur yng ngholofn B yn ogystal â cholofn C.

4 Ychwanegwch y ffigurau ym mhob colofn.

5 Copïwch y cyfansymiau o golofn B i flwch 3.1, colofn C i flwch 3.2 a cholofn D i flwch 3.3.

Taflen Waith

Colofn A Banc ac ati	Colofn B Llog net	Colofn C Treth a ddidynnwyd	Colofn D Llog gros
	£	£	£
	£	£	£
	£	£	£
	£	£	£
	£	£	£
Cyfansymiau	£	£	£
Copïwch i'r blwch	3.1	3.2	3.3

3.4 **Os cewch log sydd heb ei drethu o gwbl**
Os oes gennych gyfrif neu fond sy'n talu llog i chi heb ddidynnu treth - 'cyfrif sy'n talu gros' neu fond - nodwch y llog gros ym mlwch 3.4, ac nid blwch 3.3. (Gall pawb gael swm o incwm yn rhydd o dreth - yr isafswm yw'r lwfans personol safonol, £6,035 ar gyfer 2008-09 (mae'r swm yn amrywio ym mhob blwyddyn dreth). Os ydy cyfanswm eich incwm yn is na hynny, gallwch gofrestru i gael eich llog wedi ei dalu heb ddidynnu treth - gofynnwch i ni am ffurflen R85.) Defnyddiwch flwch 3.4 hefyd ar gyfer llog o stociau'r llywodraeth lle rydych wedi dewis cael eich llog wedi ei dalu heb ddidynnu treth.

3.5 **Difidendau cwmnïau yn y DU**
Bydd pob taleb ddifidend yn dangos daliad eich cyfranddaliadau yn y cwmni, y gyfradd ddifidend, y credyd treth a'r difidend sy'n daladwy. Byddwch yn cael yr wybodaeth hon hyd yn oed os telir eich difidend yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu drwy eich brocer buddsoddiadau. Yr unig ffigur sydd angen i chi ei nodi ar eich ffurflen gais yw cyfanswm yr holl daliadau difidend (heb gynnwys credydau treth). Ni allwch hawlio ad-daliad credydau treth ar ddifidendau'r DU.

3.6 **Difidendau a ddosberthir gan ymddiriedolaethau uned awdurdodedig (AUT) a chwmnïau buddsoddi penagored yn y DU (OEICs)**
Dylid nodi difidendau a ddosberthir o AUTs ac OEICs yn y DU ym mlwch 3.6. Gweler 3.1 ar gyfer llog o AUTs ac OEICs yn y DU.

3.7 **Difidendau stoc**
Cwblhewch y blwch hwn os cawsoch gyfranddaliadau yn lle difidendau arian, hynny yw, cawsoch ddifidend 'stoc'. Dylai'r datganiad a anfonir gan y cwmni ddangos 'y swm priodol mewn arian parod', neu'r 'cyfwerth mewn arian parod' o gyfalaf cyfranddaliadau, i'w nodi ym mlwch 3.7.

Incwm ymddiriedolaethau, setliadau ac ystâdau

4.1 i 4.10 Llenwch flychau 4.1 i 4.8 os cawsoch daliad neu os oedd hawl gennych dderbyn incwm o ymddiriedolaeth ddewisol neu gronnol neu fuddiant mewn meddiant, neu o setliad neu o ystâd person ymadawedig.

Ym mlwch 4.9 nodwch swm gwirioneddol unrhyw incwm a gafwyd o ymddiriedolaeth ddewisol pan fo buddiant gan y setlwr ar ôl 5 Ebrill 2006 - peidiwch â rhoi'r swm gros. Caiff y swm hwn ei drin fel petai wedi ei drethu ac ni fydd treth ychwanegol i'w thalu.

Nodwch swm unrhyw incwm pan gafodd treth ei didynnu ar 22% ym mlwch 4.10. Bydd hyn oherwydd derbyniwyd yr incwm gan gynrychiolwyr personol cyn 5 Ebrill 2008 ond ni chafodd ei dalu i chi tan ar ôl y dyddiad hwn.

Peidiwch â nodi incwm o gynlluniau ymddiriedolaeth uned yn yr adran hon.

Incwm ymddiriedolaeth
Bydd yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i'w nodi ar gael ar ffurflen R185 (Incwm Ymddiriedolaeth) a roddir i chi gan ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth. Os nad oes R185 (Incwm Ymddiriedolaeth) gennych, gofynnwch i'ch ymddiriedolwyr i roi un i chi. **Os oes gennych gofnod ar fwy nag un llinell o'ch R185 (Incwm Ymddiriedolaeth) dylech nodi ffigurau ar gyfer y swm a'r dreth a dalwyd neu'r credyd treth yn y blychau priodol. Os oes hawl gennych dderbyn incwm sydd heb ei drethu o ymddiriedolaeth, nodwch yr incwm hwnnw yn y blychau sy'n delio â'r math o incwm dan sylw (er enghraifft, llog heb ei drethu ym mlwch 3.4). Peidiwch ag anfon y R185 (Incwm Ymddiriedolaeth) gyda'ch ffurflen.**

Os ydych yn fuddiolwr **ymddiriedolaeth wag**, pan fo gennych hawl absoliwt i'r incwm a chyfalaf o'r ymddiriedolaeth, peidiwch â chynnwys yr incwm hwn yma. Dylech ei gynnwys yn y blychau sy'n delio â'r math o incwm dan sylw (er enghraifft, dylech nodi manylion llog o gymdeithas adeiladu ym mlwch 3.1 i 3.3).

Incwm setliad
Mae setliadau'n cynnwys ymddiriedolaethau a threfniadau pan nad ydynt yn ymddiriedolaethau. Os ydych wedi darparu arian ar gyfer setliad, gellir trethu'r incwm fel eich incwm chi at ddibenion treth.

Er enghraifft, os:

- gallwch chi neu eich priod neu eich partner sifil elwa o ymddiriedolaeth yr ydych yn setlwr ohono (un lle y gwnaethoch ddarparu'r arian)
- gwnaethoch roi asedion neu arian yn rhodd i finorydd sy'n blentyn heb briodi ac mae'r incwm sy'n codi ohono yn uwch na £100 (cyn treth) mewn unrhyw flwyddyn.

Am nodiadau a Thaflenni Cymorth ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489**.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Gymorth 270 *Trusts and settlements - income treated as the settlor's* sydd ar gael o'r Llinell Gyswllt Gymraeg. Dylech gynnwys eich incwm (a'r dreth a dalwyd) o setliadau yn y blychau perthnasol.

Incwm Ystâd
Mae hwn yn incwm o ystâd person ymadawedig. Os cewch naill ai swm penodol o arian neu ased penodol gan rywun sydd wedi marw ni fyddwch yn talu treth ar y rhain, felly ni ddylech eu cynnwys ar y ffurflen hon. Os ydy'r ased yn un sy'n cynhyrchu incwm (er enghraifft, cyfrif banc neu eiddo ar osod) ac mae gennych hawl i'r incwm hwnnw o ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig, dylech ei gynnwys ar eich ffurflen yn y blychau sy'n delio â'r math o incwm dan sylw. (Er enghraifft, nodwch fanylion llog o'r banc ym mlychau 3.1 i 3.3.)

Buddiolwyr y gweddill
Mae rheolau arbennig yn berthnasol i'r incwm o ystâd person ymadawedig a delir i chi os ydych yn fuddiolwr sydd â buddiant yn y gweddill. Y gweddill yw'r hyn sydd ar ôl yn yr ystâd ar ôl i'r cynrychiolwyr personol ofalu am yr holl gymynroddion a threuliau. Os oes gennych fuddiant yn yr incwm a chyfalaf yr hyn sy'n weddill, cewch eich trin fel petaech yn derbyn swm o incwm. Seilir hwn ar eich cyfran chi o incwm yr ystâd, ar ôl i'r cynrychiolwyr personol ddidynnu treuliau caniataol. Dylai'r cynrychiolwyr personol roi datganiad i chi ar ffurflen R185 (Incwm Ystâd), gan ddangos bod unrhyw daliadau a dalwyd wedi eu trin fel incwm a bod y dreth ar yr incwm hwnnw wedi ei thrin fel treth a dalwyd. Dylech gynnwys yr wybodaeth honno yma. **Peidiwch ag anfon y R185 (Incwm Ystâd) gyda'ch ffurflen.**

Incwm o dir ac eiddo yn y DU

5.1

Incwm
Os cewch incwm o unrhyw dir rydych yn ei berchen, neu eiddo rydych yn ei osod, nodwch gyfanswm eich incwm ym mlwch 5.1. Os ydych yn berchen ar eiddo ar y cyd gyda'ch priod neu eich partner sifil, fel arfer caiff yr incwm a'r dreth eu rhannu ar sail 50/50. Ond os ydych yn berchen ar eiddo mewn cyfrannau anghyfartal ac rydych wedi gwneud dewis dilys ar ffurflen 17, nodwch yr incwm a'r dreth ar y sail anghyfartal.

Os ydych yn gosod eiddo ar y cyd gyda rhywun arall, nodwch eich cyfran chi yn unig.

Eich catref eich hun – 'Rhentu Ystafell'
Os ydych yn gosod ystafell (neu ystafelloedd) wedi'i dodrefnu yn eich cartref eich hun (ond nid os ydy'r ystafell yn cael ei defnyddio fel swyddfa) does dim rhaid i chi sôn wrthym am hyn, cyhyd â bod cyfanswm y rhent a gewch yn llai na £4,250 yn y flwyddyn £2,125 os ydych yn rhannu'r incwm gyda rhywun arall.

Ond os ydy'r rhent yn fwy na £4,250 gallwch ddewis rhwng:

- talu treth ar y swm uwchlaw'r £4,250 – heb ddidynnu unrhyw dreuliau. Os felly, nodwch y swm uwchlaw'r £4,250 ym mlychau 5.1 **a** 5.3
- talu treth ar y swm rhent gormodol ar ôl tynnu treuliau. Os felly, nodwch gyfanswm y rhent ym mlwch 5.1, y treuliau ym mlwch 5.2 a'r elw ym mlwch 5.3 (blwch 5.1 llai blwch 5.2).

Am arweiniad pellach ynglŷn â'r cynllun Rhentu Ystafell ewch i **www.hmrc.gov.uk**

5.2 **Treuliau a ganiateir at ddibenion treth**
Yn gyffredinol, gallwch hawlio'r gost i chi o osod eich eiddo, tir ac ati. Mae'r daflen waith isod yn rhestru'r mathau o dreuliau mwyaf cyffredin. Dylech eithrio'r gyfran sy'n cynrychioli eich defnydd personol. Peidiwch â hawlio unrhyw dreuliau personol eraill, neu unrhyw gostau cyfalaf.

Taflen waith

Rhent, trethi, yswiriant, rhent tir a dalwch	£
Atgyweiriadau a chynnal a chadw'r eiddo	£
Taliadau ariannol, gan gynnwys llog ar fenthyciadau	£
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol* (gweler isod)	£
Costau unrhyw wasanaethau a ddarparwch, er enghraifft glanhau	£
10% traul (10% y rhent net – hynny yw, ar ôl i'r landlord dalu trethi cyngor a dŵr – llety a ddodrefnwyd)	£
Eraill, er enghraifft, hysbysebu, nwyddau ysgrifennu	£
Cyfanswm (copi i flwch 5.2)	£

*Dylech eithrio'r treuliau cyfreithiol a phroffesiynol o osod am y tro cyntaf, os ydyw am fwy nag un flwyddyn: mae hyn yn cynnwys y costau cyfreithiol o lunio prydles, neu ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, gallwch hawlio'r gost o adnewyddu prydles.

5.3 **Elw**
Os ydy eich treuliau yn llai na'ch incwm, byddwch wedi gwneud elw. Ym mlwch 5.3, nodwch flwch 5.1 llai blwch 5.2.

Am nodiadau a Thaflenni Cymorth ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489**.

5.4 **Colled**
Os ydy eich treuliau yn fwy na'ch incwm, byddwch wedi gwneud colled. Ym mlwch 5.4, nodwch flwch 5.2 llai blwch 5.1.

5.5 **Colledion tir ac eiddo a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach**
Byddwn yn didynnu'r colledion a ddygwyd ymlaen o'r elw (blwch 5.3) y byddwn yn ei drethu. Ond os gwnaethoch golled (blwch 5.4) dylech ei ychwanegu at y colledion sydd gennych eisoes ac a ddygwyd ymlaen gan nodi'r cyfanswm yn y blwch hwn ar ffurflen y **flwyddyn nesaf**.

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth gofynnwch y Llinell Gyswllt Gymraeg am 'Nodiadau Eiddo yn y DU' ar gyfer y flwyddyn dreth (ond anwybyddwch rifau'r blychau a ddefnyddir yn y nodiadau hynny).

Incwm tramor

6.1 i 6.12

Os cawsoch ddifidendau tramor, incwm o eiddo tramor neu unrhyw incwm tramor arall (gan gynnwys pensiynau), cwblhewch flychau 6.1 i 6.12. Peidiwch ag ychwanegu'r credyd treth ar gyfer difidendau sy'n gymwys pan fyddwch yn berchen llai na 10% o'r cyfranddaliadau. Os oes gennych hawl absoliwt i'r incwm o ymddiriedolaeth nad yw wedi ei sefydlu yn y DU, neu os cewch incwm o ystâd dramor, nodwch yr wybodaeth ym mlychau 6.1 i 6.12, yn unol â natur yr incwm. Troswch yr incwm gros tramor ac unrhyw dreth a ddidynnwyd i'r cyfwerth mewn sterling. Sylwer, nid yw treth dramor a dalwyd gennych yn ad-daladwy yn y DU, ond efallai y bydd hawl gennych i ryddhad credyd treth dramor a fydd yn gostwng treth y DU a godir ar eich incwm tramor. Byddwn yn cyfrifo'r rhyddhad hwnnw drosoch.

O 6 Ebrill 2008 ceir credyd treth difidend ar gyfer difidendau tramor, 1/9 swm y difidend, yn cynnwys y dreth dramor. Bydd hyn yn gymwys dim ond pan fo'r cyfranddaliad yn llai na 10% a phan nad yw'r cwmni tramor sy'n talu'r difidend yn gronfa alltraeth. Ychwanegir y credyd treth at y difidend i roi'r swm gros sy'n agored i dreth. Ym mlychau 6.1 a 6.3 peidiwch ag ychwanegu'r credyd treth ar gyfer y difidend. Sylwer na ellir ad-dalu credyd treth y difidend. Bydd yn gostwng treth y DU a godir ar eich incwm difidend tramor ar ôl caniatáu rhyddhad credyd treth dramor, mewn perthynas ag unrhyw dreth dramor a dalwyd.

Dim ond 90% o'ch pensiwn tramor sy'n agored i dreth yn y DU, felly didynnwch 10% o ffigur gros y pensiwn tramor a nodwch y 90% ym mlwch 6.10.

Os, yn anarferol, didynnwyd treth y DU o unrhyw incwm yn y blychau hyn, neu os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch, yna cysylltwch â ni.

Unrhyw incwm a budd-daliadau eraill

7.1 i 7.3

Enillion digwyddiad trethadwy

Os gwnewch unrhyw enillion ar bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau bywyd neu bolisïau adbryniant cyfalaf neu os cewch ad-daliadau o arian gormodol a dalwyd trwy gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yn y DU, efallai y bydd angen i chi lenwi blychau 7.1 i 7.3. Mae'n ofynnol ar yswirwyr yn y DU i roi tystysgrif pan fyddwch wedi gwneud 'ennill', yn unol â'r gyfraith. Defnyddiwch yr wybodaeth ar eich tystysgrif i gwblhau blychau 7.1 i 7.3. Os cewch incwm o ystâd mewn perthynas ag ennill a wnaed ar rai polisïau yswiriant penodol, defnyddiwch yr wybodaeth ar eich ffurflen R185 (Incwm Ystâd) i gwblhau blychau 7.1 i 7.3. Caiff y mwyafrif o enillion ar bolisïau yswiriant y DU eu trin fel petai'r dreth wedi ei didynnu; ni ellir ad-dalu'r dreth hon. Mae Taflen Gymorth 320 *Gains on UK life insurance policies*, sydd ar gael o'r Ganolfan Gyswllt Gymraeg, yn rhoi mwy o wybodaeth ac arweiniad.

Ni chaiff y mwyafrif o enillion ar bolisïau yswiriant tramor eu trin fel petai'r dreth wedi ei didynnu. Llenwch flychau 6.10 a 6.11 os gwnaethoch 'ennill' o bolisi tramor. Mae Taflen Gymorth 321 *Gains on foreign life insurance policies*, sydd ar gael o'r Ganolfan Gyswllt Gymraeg, yn rhoi mwy o wybodaeth ac arweiniad.

Os gwnaethoch enillion ar fwy nag un polisi, naill ai yn y DU neu dramor, rhowch fanylion ar daflen ar wahân.

Os ydych wedi derbyn budd oherwydd eich bod yn berchen ar, neu wedi cyfrannu at gaffael eiddo (ased yr oeddech yn ei berchen yn flaenorol) yna cysylltwch â ni.

7.4 i 7.6

Incwm a budd-daliadau eraill

Defnyddiwch flychau 7.4 i 7.6 ar gyfer incwm a budd-daliadau trethadwy eraill a gawsoch yn y flwyddyn i 5 Ebrill. Dylid nodi unrhyw incwm sy'n agored i dreth ond sydd heb ei gynnwys yn y nodiadau hyn, ym mlwch 7.4 i 7.6. Os gwnaethoch ohirio derbyn pensiwn y wladwriaeth a bellach wedi derbyn cyfandaliad, nodwch y swm ym mlwch 7.4 a'r dreth a ddidynnwyd ym mlwch 7.5.

Dim ond **un math** o incwm y dylid ei nodi yma.

Rhodd Cymorth

Mae Rhodd Cymorth yn rhyddhad treth ar gyfer rhoddion arian parod i elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CChAC) yn y DU. Bydd yr elusen neu'r CChAC yn gofyn i chi roi datganiad i gadarnhau eich bod yn talu Treth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU - wedyn gallant hawlio'r dreth yn ôl oddi wrthym. Os na fyddwch wedi talu swm Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU sy'n gyfartal â'r swm y bydd yr elusen neu'r CChAC yn hawlio fel ad-daliad ar eich rhodd, byddwn yn gofyn i chi dalu'r gwahaniaeth (fel arfer drwy ei gynnwys yn eich cyfrifiad treth).

Am nodiadau a Thaflenni Cymorth ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489**.

Os talwch dreth ar y gyfradd uwch gallwch hawlio rhyddhad treth - mae'r cyfrifiad treth yn ei gyfrifo drosoch.

Os ydych yn 65 oed neu'n hŷn, gallai eich taliadau Rhodd Cymorth leihau eich bil treth, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi blwch 1.1 - bydd angen eich dyddiad geni arnom i gyfrifo eich lwfansau personol rhydd o dreth yn gywir.

8.1 **Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ym mlwyddyn y cais**
Nodwch y symiau gwirioneddol a roddwyd; peidiwch ag ychwanegu unrhyw ryddhad treth y credwch y bydd yr elusen yn ei gael. Peidiwch â chynnwys unrhyw daliadau o dan 'Rhoi drwy'r gyflogres' (ym mlwch 8.1 neu unrhyw fan arall ar eich ffurflen); caiff y taliadau hynny ei didynnu o'ch cyflog cyn i'ch cyflogwr ei drethu.

8.2 **Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ym mlwyddyn y cais ond a chawsant eu trin fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn flaenorol (heb eu cynnwys ym mlwch 8.1)**
Os ydych eisoes wedi gofyn i ni drin taliadau a wnaed ym mlwyddyn y cais fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn flaenorol, nodwch y taliadau hynny ym mlwch 8.2.

8.3 **Cyfanswm y taliadau unigol a gynhwyswyd ym mlwch 8.1**
I'n helpu i gael eich cod treth TWE yn gywir, os oes gennych un, nodwch unrhyw daliadau unigol a gynhwyswyd ym mlwch 8.1 ym mlwch 8.3. Bydd y rhain yn daliadau Rhodd Cymorth a wnaed ym mlwyddyn y cais lle nad yw'n fwriad gennych ail-wneud hynny yn y flwyddyn ddilynol. Mae fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn yn Nhaflen Gymorth 342 *Charitable giving*.

8.4 **Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl diwedd blwyddyn y cais ond sydd i'w drin fel petai wedi ei wneud yn y flwyddyn honno**
Gallwch ofyn i ni drin taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl diwedd y flwyddyn ond cyn y 31 Ionawr dilynol fel petaent wedi eu gwneud ym mlwyddyn y cais, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny erbyn 31 Ionawr.

Rhyddhad arall
Os ydych am hawlio am daliadau am fenthyciadau cymwys, taliadau cynhaliaeth ac alimoni, tanysgrifiadau am gyfranddaliadau mewn cwmnïau Ymddiriedolaethau Cyfalaf Mentro neu Gynllun Buddsoddiad Menter neu ryddhad am rodd o fuddsoddiadau cymwys i elusen, nodwch y manylion ar ddalen ar wahân. Cysylltwch â ni os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

Lwfans person dall

9.1 a 9.2 Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr ac wedi eich cofrestru'n ddall gydag awdurdod lleol, rhowch 'X' ym mlwch 9.1 a nodwch enw'r awdurdod lleol ym mlwch 9.2. Os ydych wedi eich cofrestru'n rhannol ddall ni allwch hawlio'r lwfans hwn.

Os ydych yn byw yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, nid oes yn rhaid i awdurdodau lleol gadw cofrestr o bersonau dall, er bod llawer yn dal i wneud hynny. Os ydych ar gofrestr, rhowch 'X' ym mlwch 9.1 a nodwch enw'r awdurdod ym mlwch 9.2. Os nad ydych ar gofrestr ond bod eich golwg mor wael fel ei fod yn eich rhwystro rhag gwneud gwaith lle mae golwg yn hanfodol, gallwch hawlio'r lwfans. I wneud cais rhowch 'X' ym mlwch 9.1 a nodwch 'Yr Alban' neu 'Gogledd Iwerddon' ym mlwch 9.2.

Am nodiadau a Thaflenni Cymorth ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489**.

Trosglwyddo lwfans person dall sydd heb ei ddefnyddio
Gellir trosglwyddo unrhyw lwfans person dall sydd heb ei ddefnyddio i'ch priod neu eich partner sifil. Os ydych am drosglwyddo **unrhyw** lwfansau sydd heb eu defnyddio rhowch 'X' ym mlwch 10.6, cysylltwch â ni ac anfonir ffurflen 575 atoch i'w chwblhau.

Lwfans pâr priod

Gellir hawlio'r lwfans hwn dim ond os ganed chi neu eich priod neu eich partner sifil **cyn 6 Ebrill 1935**, ac

- rydych yn ddyn a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005, neu
- gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 a chi yw'r priod neu'r partner sifil gyda'r incwm **uchaf**, neu
- rydych yn ferch a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005, neu gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 a chi yw'r priod neu'r partner sifil gyda'r incwm **isaf**, **a** gwnaethoch ddewis hawlio'r holl neu hanner isafswm y lwfans pâr priod **cyn** 6 Ebrill ym mlwyddyn y cais (neu yn ystod blwyddyn y cais os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil yn ystod y cyfnod hwnnw).

Mae'r lwfans yn cynnwys dau swm - isafswm (sy'n werth hyd at £254 yn 2008-09), yn ogystal â swm ar sail oedran sy'n dibynnu ar incwm y gŵr (ar gyfer priodasau cyn 5 Rhagfyr 2005), neu'r person gyda'r incwm uchaf (ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil a ffurfiwyd ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005).

10.6 **Trosglwyddo lwfansau sydd heb eu defnyddio**
Os oes gennych lwfans pâr priod neu lwfans person dall sydd heb eu defnyddio ar gyfer blwyddyn y cais ac os hoffech i ni eu trosglwyddo i'ch priod neu eich partner sifil, rhowch 'X' ym mlwch 10.6.

Cyfarwyddiadau ar gyfer Ad-daliadau

11.1 i 11.5

Ar ôl i ni gyfrifo unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus, byddwn yn anfon archeb talu (siec) atoch chi neu eich enwebai.

Os hoffech i ni anfon yr ad-daliad at enwebai, llenwch flychau 11.1 a 11.2. Anfonir archeb talu drwy'r post at eich enwebai. Ni ellir anfon ad-daliad trwy Bankers Automated Clearing Service (BACS).

Os hoffech i ni anfon archeb talu i'ch banc neu eich cymdeithas adeiladu, llenwch flychau 11.1 a 11.3 i 11.5. Rhaid i'ch archeb talu gael ei thalu i gyfrif yn eich enw chi. Ni allwn anfon ad-daliad i fanc neu gymdeithas adeiladu trydydd parti.

Datganiad

12.2 **Os ydych wedi llofnodi ar ran rhywun arall**
Gallwch wneud cais ar ran:

- minorydd dibriod (rhywun o dan 16 oed yn yr Alban neu dan 18 mewn mannau eraill), neu
- person sy'n anabl yn feddyliol, neu
- rhywun a fu farw.

Dylai ceisiadau fel arfer cael eu gwneud gan:

- **rhiant neu warcheidwad** ar ran minorydd dibriod
- **y person a awdurdodwyd gan y llysoedd** i ofalu am faterion oedolyn sy'n anabl yn feddyliol (neu berson a benodir gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau**)
- **ysgutor neu weinyddwr** ystâd rhywun a fu farw (bydd y cais yn ymwneud ag incwm hyd at ddyddiad y farwolaeth yn unig).

Dylai'r rheiny sydd bellach yn 16 mlwydd oed (yn yr Alban) neu 18 (mewn mannau eraill) gwblhau'r ffurflen hon eu hunain. Dylai ef neu hi nodi ei enw/henw ar dudalen 1 y ffurflen a rhoi ei gyfeiriad/chyfeiriad (os yw'n wahanol i'r hyn a welir ar dudalen 1) gan nodi 'Cais ar gyfer fy hun' ym mlwch 12.2.

Os oes gennych gŵyn

Os na allwch ddatrys mater gyda'r swyddfa y buoch yn delio â hi, gallwch ysgrifennu at y Rheolwr Cwynion sy'n gyfrifol am y swyddfa neu'r uned honno. Bydd y Rheolwr Cwynion yn ymchwilio i'ch achos gan anfon y canlyniadau atoch yn gyflym. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chwyno, ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am complaints o fewn y cyfleuster Chwilio.

Os ydych yn parhau'n anfodlon
Os na fydd y Rheolwr Cwynion wedi llwyddo i ddatrys eich cwyn yn foddhaol, gallwch ofyn i'r Dyfarnwr i ymchwilio iddo ac argymell sut i weithredu'n briodol. Mae'r Dyfarnwr yn ganolwr diduedd ac mae ei argymhellion yn annibynnol.

Cyfeiriad y Dyfarnwr yw:

The Adjudicator's Office
8th floor
Euston Tower
286 Euston Road
Llundain / London
NW1 3US

Ffôn **0300 057 1111**
Ffacs **0300 057 1212**
www.adjudicatorsoffice.gov.uk

Mae taflen y Dyfarnwr AO1 yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â chwyno i'r Dyfarnwr.

Yn olaf, gallwch ofyn i'ch AS i gyfeiri eich achos at Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd. Bydd yr Ombwdsman yn derbyn achosion a gyfeirir gan unrhyw AS, ond dylech ofyn i'ch AS eich hun yn gyntaf. Ceir manylion pellach o:

The Parliamentary and Health Service Ombudsman

Millbank Tower
Millbank
Llundain/London
SW1P 4QP

Ffôn **0845 015 4033**
Ffacs **020 7217 4000**
www.ombudsman.org.uk

Preifatrwydd a Diogelu Data

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu treth a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y rhown ni wybodaeth iddynt hwy. Os byddwn yn gwneud hyn, fe fydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei chaniatáu yn unig, er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus.

Efallai y cymharwn wybodaeth a dderbyniwn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**